



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Syr Hugh Owen  
Bethel Road  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn       | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu                                                          |
|------------|----------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhagorol   | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da         | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol               |
| Digonol    | Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella                                          |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau                                |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Syr Hugh Owen yn ysgol naturiol ddwyieithog 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae 836 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 176 yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigur hwn wedi disgyn ychydig er 2008 pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf, ac roedd 890 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae hawl gan tua 15.7% o ddisgyblion gael prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Daw disgyblion o dref Caernarfon a'i chyffiniau sydd yn cwmpasu Llandwrog a'r Felinheli. Mae tua 21% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'u teuluoedd ac mae 92% yn rhugl yn yr iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deillio o gefndir gwyn, Prydeinig.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r holl ystod gallu. Mae canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol tua 14.5%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym Medi 2014. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a phedwar pennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Syr Hugh Owen yn 2015-2016 yw £4,603. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,775 a'r lleiafswm yw £4,144. Mae Ysgol Syr Hugh Owen yn yr 11eg safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

|                                       |                |
|---------------------------------------|----------------|
| <b>Perfformiad presennol yr ysgol</b> | <b>Digonol</b> |
| <b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>      | <b>Da</b>      |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol yn y pedair blynedd diwethaf
- yn 2015, mae perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg
- bod gan lawer o'r disgyblion fedrau cyfathrebu llafar effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg
- yn y mwyafrif o wersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol
- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac yn arddangos parch tuag at eu cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr
- yn y mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i gynnig her briodol a sicrhau cynnydd cyson ym medrau a gwybodaeth bynciol y disgyblion

Fodd bynnag:

- mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill
- mae canlyniadau Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg eraill
- mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dealltwriaeth bynciol neu yn eu medrau
- mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawniyn ddigon uchel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn arweinydd deinamig ac ysbrydoledig sydd yn cyfathrebu'n huawdl gyda holl gymuned yr ysgol.
- cyfrifoldebau'r tîm arwain yn glir ac maent yn cydweithio'n effeithiol i roi cyfeiriad cadarn i'r ysgol
- ysbryd o gyd-dynnu cryf ymysg arweinwyr ar bob lefel, er bod anghysondeb o ran trylwyredd gwaith y rheolwyr canol wrth hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella
- y llywodraethwyr yn wybodus iawn ynghylch perfformiad yr ysgol ac yn

ymroddedig i'w llwyddiant

- gan yr ysgol brosesau sicrhau ansawdd trylwyr sy'n tynnu ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- cynlluniau gwella'r ysgol yn hynod fanwl ac wedi'u llunio'n rhesymegol

## Argymhellion

A1 Gwella'r deilliannau Saesneg yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella medrau ysgrifenedig y disgyblion, yn enwedig yn Saesneg

A3 Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol drwy rhannu'r arferion gorau

A4 Sicrhau bod pob rheolwr canol yn arfarnu'u meysydd cyfrifoldeb a chynllunio ar gyfer gwella'n drylwyr

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol. Yn 2015, gwnaeth perfformiad yn y dangosyddion hyn gymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn is na'r deilliannau modeledig. Fodd bynnag, yn 2015, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn yn uwch na'r deilliannau modeledig am y tro cyntaf erioed. Er bod canlyniadau TGAU Saesneg graddau A\*-C wedi gwella, maent yn parhau'n is na chymedr ysgolion tebyg eraill. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella'n flynyddol ac yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill yn y tair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau TGAU A\* - A wedi amrywio. Yn 2015, mae hwn yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf ers 2010.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yn y chweched dosbarth yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill. Ym Mlwyddyn 13, ers 2012, mae cyfran y disgyblion sy'n llwyddo i gyflawni 3 A\*-C yn lefel A wedi amrywio ond yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill yn y tair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae'r cyfran sy'n cyflawni 3 A\*-A wedi disgyn ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg eraill. Er bod perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau cyfartalog yn cymharu'n ffafriol â'r hyn mewn ysgolion tebyg, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd lefel 3 yn gyson is na'r cyfartaledd mewn ysgolion eraill.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn ennill un neu ragor o gymwysterau ac yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn perfformio'n gyson well na'r merched yn y dangosydd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad bechgyn yn y dangosydd hwn yn cymharu'n ffafriol â bechgyn eraill mewn ysgolion tebyg yn y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y merched yn sylweddol is na merched mewn ysgolion tebyg eraill. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad y bechgyn a'r merched wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chymedr y teulu o ysgolion yn 2015.

Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn sylweddol is na pherfformiad disgyblion tebyg mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, yn 2015, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion o leiaf cystal â'r hyn mewn ysgolion eraill ym mhob dangosydd allweddol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu arbennig yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau.

Yn y gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae llawer yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau eu hathrawon ac yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau neu barau.

Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar fedrau cyfathrebu llafar effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgyblion hyn, yn arbennig y bechgyn, yn awyddus i ymateb i gwestiynau ac yn arddangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith Gymraeg. Gall llawer o'r disgyblion gyfiawnhau eu barnau'n rhesymegol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt yn betrusgar a di-hyder wrth gyfrannu ar lafar yn Saesneg. Mae gan llawer o'r disgyblion eirfa gyffredinol eang a gafael gadarn ar dermau pwnc penodol. Gall ychydig o'r disgyblion gyfathrebu'u syniadau yn huawdl gan ddefnyddio geirfa eang mewn modd soffistigedig.

Yn y mwyafrif o wersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar fedrau darllen cadarn ac yn medru cywain gwybodaeth briodol o ystod o destunau. Mae'r mwyafrif yn medru cymhwyso'u gwybodaeth bynciol yn effeithiol i sefyllfaoedd newydd wrth lunio rhagfynegiadau neu ddod i gasgliadau. Mewn ychydig o wersi, mae'r disgyblion yn dyfnhau eu dysgu drwy wneud cysylltiadau creadigol rhwng meysydd pynciol gwahanol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r disgyblion yn deall diben y gweithgareddau dysgu o ganlyniad i ddiffyg eglurdeb yn yr addysgu. Yn y gwersi hyn, maent yn oddefol ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu dealltwriaeth bynciol neu yn eu medrau.

Mae medrau ysgrifenedig llawer o'r disgyblion yn gadarn yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig at ystod o wahanol gynulleidfaoedd a dibenion priodol yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Mae gwaith ysgrifenedig ychydig o'r disgyblion yn hynod o raenus ac yn cynnwys syniadau gwreiddiol a chreadigol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith sydd yn ddryslyd a di-strwythur. Yn ogystal, mae eu hysgrifennu, yn enwedig yn Saesneg, yn cynnwys llawer o gamgymeriadau sillafu a gramadegol.

Mae'r disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn briodol ar draws ystod addas o bynciau. Mae llawer ohonynt yn medru adio, tynnu, lluosu a rhannu'n gywir. Gall llawer ohonynt lunio a dehongli graffiau a siartiau cylch i gyflwyno data'n briodol. Yn ogystal, medrant ddewis graddfeydd priodol ac ychwanegu llinellau ffit gorau addas i'w graffiau.

### **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i fyw'n iach ac mae llawer ohonynt yn manteisio ar y gweithgareddau ymarfer corff a gynigir gan yr ysgol. Mae disgyblion unigol a thimau'r ysgol yn eithriadol o lwyddiannus mewn ystod eang o gystadlaethau chwaraeon lleol a chenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac yn arddangos parch tuag at eu cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Mae cyfraddau gwaharddiad yn isel iawn. Mae presenoldeb yn yr ysgol wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn rheolaidd wedi gostwng. Er bod presenoldeb y disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer pryddau ysgol am ddim hefyd wedi gwella, mae'n parhau'n is na chyfartaledd ysgolion tebyg.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan flaengar wrth gyfrannu at benderfyniadau yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn fforwm effeithiol iawn i ddisgyblion fynegi eu hunain. Mae wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft, ar brisiau yn y ffreutur, nifer y staff ar ddyletswydd amser egwyl a darparu ystafelloedd gweithio i ddisgyblion y chweched astudio.

Mae llawer o'r disgyblion yn arddangos lefelau cymhelliant uchel a'r medrau rhyngpersonol angenrheidiol er mwyn cymryd y cam nesaf yn eu bywydau.

|                                                            |           |
|------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b> | <b>Da</b> |
|------------------------------------------------------------|-----------|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol wedi ailgynllunio ei chwricwlwm yn llwyddiannus yn ddiweddar i ddarparu profiadau dysgu eang, cytbwys a pherthnasol. Mae'r ysgol wedi ehangu ei chwricwlwm trwy gydweithio'n effeithiol ag ysgolion a cholegau lleol er mwyn diwallu anghenion a diddordeb yr holl ddisgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd yn y canran o ddisgyblion sy'n ennill cymwysterau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ategu profiadau'r disgyblion trwy raglen allgyrsiol gynhwysfawr sy'n cynnwys clybiau pynciol, teithiau lleol a thramor, clybiau chwaraeon a physgota, sioeau ysgol, eisteddfodau, côr telynau a'r band chwyth sydd â dros 70 o aelodau.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd buddiol iddynt ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifen a darllen ar draws y pynciau. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd y disgyblion a cheir cyfleoedd ymestynnol ar gyfer datblygu medrau datrys problem mewn mathemateg.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n gynhyrchiol â'r ysgolion cynradd partner i fireinio cynlluniau gwaith gan sicrhau cynnydd wrth drosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Drwy ystod o ymyraethau addas, mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth ychwanegol effeithiol i'r disgyblion sydd ag anawsterau darllen a rhif. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion i ddatblygu eu medrau a chyfrannu at y gymuned ehangach trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, y clwb ysgol werdd effeithiol, gweithgareddau ar arbed ynni a dŵr, a nifer o weithgareddau codi arian at



elusennau lleol. Mae partneriaeth werthfawr wedi ei sefydlu gydag ysgol yn Zambia, gyda'r disgyblion yn codi arian yn flynyddol a thaith boblogaidd i ymweld â'r ysgol bob dwy flynedd.

### **Addysgu: Digonol**

Ym mron pob gwrs, mae athrawon yn cynnig model ieithyddol buddiol i'r disgyblion. Maent yn arddangos gwybodaeth bynciol gadarn ac mae'r rhan fwyaf yn meithrin perthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion.

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn cynllunio'u gwrsi'n ofalus i gynnig her briodol a sicrhau cynnydd cyson ym medrau a gwybodaeth bynciol y disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn paratoi neu ddewis adnoddau dysgu o ansawdd uchel. Mewn lleiafrif o'r gwrsi, ceir cyfleoedd symbylol i'r disgyblion ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth gyfoes i ategu eu dysgu.

Yn y mwyafrif o'r gwrsi, mae'r athrawon yn cyflwyno tasg agoriadol ddiddorol i sbarduno diddordeb a chwilfrydedd y disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnal y gwrsi ar dempo uchel ac yn cylchu'r dosbarth yn wylidwrus i gynnig cymorth buddiol i ddisgyblion penodol. Mewn llawer o wersi, mae'r cymorthyddion dysgu yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn effeithiol. Yn y mwyafrif o'r gwrsi, mae'r athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol i brofi dealltwriaeth ac ymestyn ymatebion y disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnal sesiynau cloi pwrpasol i gadarnhau dealltwriaeth y disgyblion.

Mewn ychydig o'r gwrsi, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Yn y gwrsi hyn, mae'r athrawon yn hyrwyddo dysgu dwfn drwy hybu'r disgyblion i wneud cysylltiadau creadigol rhwng agweddau gwahanol o'u dysgu blaenorol.

Mewn lleiafrif o'r gwrsi, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel. Maent yn cynllunio gwrsi sydd yn cynnig her annigonol i'r disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf abl. Yn y gwrsi hyn, nid yw'r athrawon yn rhannu amcanion y wers yn eglur. Er bod y gweithgareddau'n cadw'r disgyblion yn brysur yn y gwrsi hyn, nid yw'r cynllunio'n arwain at gynnydd yn eu medrau na'u dealltwriaeth. Yn hytrach na defnyddio cwestiynau agored, mae'r athrawon yn y gwrsi hyn yn cyflwyno am gyfnodau estynedig. Effaith hyn yw gwneud y disgyblion yn rhy oddefol.

Mae bron bob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd a gofalus. Rhoddir adborth cadarn i'r disgyblion a gosodir targedau effeithiol mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r targedau ar gyfer gwella yn ddigon penodol er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i wneud cynnydd.

Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion mewn llawer o'r gwrsi. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o'r meini prawf llwyddiant perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn dyfnhau'r dysgu. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o achosion, nid yw'r tasgau'n bwrpasol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn symbylu cynnydd.

Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain yn effeithiol a'i fonitro'n rheolaidd ar draws y cwricwlwm er mwyn adnabod unrhyw dangyflawni yn amserol. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i adnabod gwendidau a chyflwyno camau priodol er mwyn gwella deilliannau.

Mae adroddiadau i rieni yn ddefnyddiol a chynhwysfawr. Maent yn cyflwyno manylion gwerthfawr iawn ar gynnydd a chyflawniad y disgyblion.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd wrth wraidd y cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r trefniadau bugeiliol yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu at yr ymddygiad da a'r gwelliannau mewn presenoldeb. Mae'r 'Ganolfan Gynhwysiad' yn darparu cynhaliadau werthfawr i ddisgyblion bregus. Ceir rhaglen fentora fuddiol sydd yn helpu codi disgwyladau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i werthfawrogi gweithgareddau diwylliannol trwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r elfen hon yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ystod eang o asiantaethau allanol er lles y disgyblion. Cynigir cyngor ac arweiniad defnyddiol wrth i ddisgyblion wneud eu dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r modd y mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ac yn cyfathrebu â'r disgyblion a'u rhieni yn gryfder arbennig.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad a'u lles. Gwneir defnydd da o gynlluniau addysgu unigol gan y mwyafrif o'r athrawon a chaiff disgyblion a'u rhieni eu cynnwys yn llawn wrth eu cynllunio a'u hadolygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chynhenid Gymreig. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau goddefgar yn llwyddiannus i sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn teimlo'n rhydd rhag aflonyddwch. Mae polisiâu a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl, beth bynnag eu hanghenion. Caiff pob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel i hyrwyddo'r dysgu. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cyfoes i gyfoethogi profiadau dysgu. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd dysgu yn darparu amgylchedd dysgu symbylol. Mae'r adeilad a'r tir yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r toiledau'n hylan.

|                                                                            |           |
|----------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b> | <b>Da</b> |
|----------------------------------------------------------------------------|-----------|

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd deinamig ac ysbrydoledig sydd yn cyfathrebu'n huawdl â holl gymuned yr ysgol. Caiff ei gefnogi'n fedrus gan y dirprwy bennaeth a gweddiill y tîm arwain. Mae cyfrifoldebau'r tîm arwain yn glir ac maent yn cydweithio'n effeithiol i roi cyfeiriad cadarn i'r ysgol. Mae ganddynt weledigaeth uchelgeisiol sydd yn ysgogi cydweithio nerthol. Mae hon yn cael ei choleddu gan bron pob aelod o staff ac yn treiddio trwy waith yr ysgol. Mae ysbryd cryf o gyd-dynnu a pharodrydd i newid er mwyn gwella yn amlwg ymysg arweinyddion ar bob lefel.

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r uwch dîm arwain ar ei newydd wedd, wedi blaenoriaethu'n ofalus a gosod targedau heriol er mwyn sicrhau gwelliant. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth strategol wedi llwyddo i godi safonau ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae arweinyddiaeth gadarn hefyd wedi arwain at welliannau eraill. Mae rhain yn cynnwys marcio o ansawdd da gan lawer o athrawon ac adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau ar gyfer gwella o safon uchel gan lawer o arweinyddion.

Mae rolau'r arweinyddion canol wedi datblygu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r arweinyddion wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gwerthfawr ar fedrau rheoli ac arwain. O ganlyniad, mae llawer o arweinyddion pwnc bellach yn ymdrin â data perfformiad yn hyderus. Maent yn arwain eu hadrannau'n llwyddiannus gan roi pwyslais cyson ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r arweinyddion cynnydd yn gweithio'n effeithlon i wella presenoldeb a chefnogi disgyblion bregus, ac yn datblygu eu rôl wrth olrhain cynnydd academiaidd.

Mae llinellau atebolrwydd yr ysgol yn glir. Mae calendr pwrpasol o weithgareddau sicrhau ansawdd a systemau monitro i ddwyn arweinyddion i gyfrif yn effeithiol. Yn ogystal, mae trefniadau cadarn ar gyfer ymateb i ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn. Mae'r rheolwyr llinell yn cynnal cyfres synhwyrol o gyfarfodydd cyson gyda'r arweinyddion canol. Ceir patrwm ac agenda cyffredin i'r cyfarfodydd hyn a dilyniant clir o un cyfarfod i'r llall. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd adran yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion a blaenoriaethau'r ysgol. Serch hyn, mae ansawdd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn anghyson.

Mae trefn a pholisi rheoli perfformiad addas gan yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r targedau yn feintiol ac yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae rhaglen fuddiol o gefnogaeth ar gyfer adrannau neu aelodau o staff sydd yn tanberfformio.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn ynghylch perfformiad yr ysgol ac yn ymroddedig i'w llwyddiant. Maent yn weithredol yn eu rolau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr megis craffu ar lyfrau a chanfod barn disgyblion. Maent yn trafod materion megis safonau a chyllid yn hyderus ac yn fanwl. Cynigiant her gref i uwch arweinyddion ac, yn gynyddol, i arweinyddion canol.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau miniog a chydlynus yr ysgol ar gyfer gwella ansawdd wedi cyfrannu at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion ym mhob dangosydd perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol brosesau sicrhau ansawdd trylwyr sy'n tynnu ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a gonest. Cryfder yr adroddiad hwn yw dealltwriaeth ddogfn yr ysgol o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Defnyddia'r uwch dîm arwain ystod o ddata perfformiad yn fedrus i fonitro perfformiad yr ysgol er mwyn gosod targedau clir i sicrhau gwelliant.

Ceir rhaglen gynhwysfawr o arsylwadau gwersi manwl, yn ogystal â threfniadau trwyadl i graffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y canfyddiadau'n dylanwadu'n briodol ar gynnwys yr adroddiad ac yn arwain at dargedau gwelliant penodol a pherthnasol. Mae arsylwadau gwersi yn ffocysu'n glir ar safonau a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr uwch dîm arwain ddarlun cywir o'r agweddau sydd eisiau'u hefelychu neu'u gwella yn yr addysgu. Mae ansawdd llawer o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn uchel, gydag ychydig o enghreifftiau rhagorol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn ddigon trylwyr.

Mae gan yr ysgol systemau llwyddiannus er mwyn casglu barn disgyblion a'r rhieni ar waith yr ysgol. Ar sail trafodaethau gyda disgyblion, cafwyd newidiadau buddiol i gwricwlwm, sesiynau mentora ac adeilad yr ysgol. Nodwedd arbennig o'r ysgol yw dull y pennaeth o ymateb i holiaduron rhieni drwy eu hysbysu o'r camau fydd yn cael eu cymryd i ymateb i'w pryderon. Mae hyn yn arfer arbennig o gyfathrebu clir a thryloyw.

Mae'r cynllun gwella'r ysgol yn hynod fanwl ac wedi'i lunio'n rhesymegol. Mae cyswllt tynn rhwng y gweithgareddau hunanarfarnu â blaenoriaethau cynlluniau gweithredu ysgol gyfan ac adrannol. Mae'r cynllun gweithredu ysgol yn cynnwys meysydd gwella priodol, gyda meini prawf llwyddiant eglur. Mae gweithredoedd a champau clir er mwyn cyflawni'r nodau uchelgeisiol sydd ynddo. Mae cyfrifoldebau wedi'u nodi ar gyfer monitro llwyddiant gwahanol agweddau o'r cynllun. Er bod y cynllun yn nodi cost o ran adnoddau dynol ac amser, nid yw'n dynodi cost ariannol gweithredoedd penodol yn ddigon manwl.

Mae ansawdd cynlluniau gwella llawer o'r adrannau yn gynhwysfawr a manwl gyda thargedau meintiol a heriol. Mae llawer o'r cynlluniau adrannol yn rhoi sylw manwl i'r gwendidau sydd wedi'u hamlygu ar ôl dadansoddi data papurau arholiad. Fodd bynnag, mewn ychydig o gynlluniau gwella adrannol, nid yw'r strategaethau'n ddigon penodol neu drylwyr er mwyn cyflawni'r nodau ynddynt.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid i ehangu ar brofiadau addysgol y disgyblion. Mae'r bartneriaeth â'r colegau yn sicrhau dewis eang ac addas o bynciau i'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn wedi

cynorthwyo pob disgybl i gadael yr ysgol gyda chymhwyster priodol. Yn y sector ôl-16, mae'r partneriaethau â'r colegau a chonsortium Arfon Môn yn sicrhau bod yna ddewis eang wrth sicrhau bod y cyrsiau yn gynhaliol. Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd y cyrsiau sy'n cael eu darparu gan y clwstwr.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn datblygu'n dda ac mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â grwpiau penodol ohonynt i ddyfnhau eu hymglymiad yn addysg eu plant. Mae effaith hyn i'w gweld yn y gwelliannau diweddar mewn safonau a'r nifer cynyddol o ddisgyblion o gefndiroedd llai breintiedig sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn flaengar wrth adrodd yn ôl i rieni ar y modd mae arweinyddion yn mynd i'r afael â phryderon penodol.

Mae trefniadau buddiol ar gyfer trosglwyddo o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi cydweithio'n gynhyrchiol â'i hysgolion partner cynradd wrth ddatblygu polisi marcio iaith.

Mae partneriaethau gwerthfawr wedi eu sefydlu gyda'r gymuned ym myd chwaraeon, gyda swyddogion pêl-droed a rygbi yn cydweithio'n agos â chlybiau lleol.

Mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r brifysgol leol, lle mae disgyblion Blwyddyn 9 yn ymweld â hi er mwyn codi'u dyheadau. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn mynychu sesiynau adolygu yno a cheir cydweithio pwrpasol gyda'r coleg hefyd wrth hyfforddi darpar athrawon.

Mae gwaith partneriaeth gwerthfawr gyda'r heddlu, y swyddog lles ac asiantaethau eraill wedi cyfrannu at leihad yn nifer yr absenoldebau cyson .

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau yn effeithlon. Mae gan y pennaeth, y dirprwy bennaeth a phwyllgor cyllid y llywodraethwyr afael gadarn ar sefyllfa ariannol yr ysgol. Maent yn cynllunio a monitro gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob gwariant yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol.

Er bod yr ysgol wedi bod trwy gyfnod o ostyngiad mewn staffio, mae safonau cyrhaeddiad wedi gwella. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae lefelau absenoldeb staff yn isel iawn. Mae'r ychydig o staff sydd yn dysgu y tu hwnt i'w pwnc arbenigol yn derbyn cefnogaeth addas i sicrhau bod ganddynt y ddealltwriaeth hanfodol i addysgu'r pwnc. Defnyddir staff cymorth yn fuddiol i gynnal y cwricwlwm ac i gefnogi disgyblion.

Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei wario'n gynhyrchiol i ddarparu ystod eang o gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion penodol a'u teuluoedd. Yn 2015, arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn y deilliannau ar gyfer disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol raglen gyfoethog o hyfforddiant mewn swydd. Mae'n cynnwys hyfforddiant penodol ar agweddau o arweinyddiaeth sydd wedi arwain at welliannau yng ngwaith arweinwyr canol ac uwch. Yn ychwanegol, mae hyfforddiant ysgol gyfan

ar farcio ac asesu wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ansawdd yr adborth i'r disgyblion. Mae pob athro'n rhan o weithgor proffesiynol addas naill ai o fewn yr ysgol neu gydag ysgolion eraill. Mae rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau o'r ddarpariaeth a safonau, er enghraifft ansawdd yr ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, nid yw rhaglen hyfforddiant yr ysgol wedi cael digon o effaith ar ansawdd addysgu lleiafrif o'r athrawon.

Ar sail perfformiad presennol, cynigia'r ysgol werth digonol am arian.

# Atodiad 1

## 6614039 - Ysgol Syr Hugh Owen

|                                                              |                  |
|--------------------------------------------------------------|------------------|
| Number of pupils on roll                                     | 862              |
| Pupils eligible for free school meals (FSM) - 3 year average | 15.7             |
| FSM band                                                     | 3 (15%<FSM<=20%) |

### Key stage 3

|                                                       | School |      |      |      | Family average (2015) | Wales average (2015) |
|-------------------------------------------------------|--------|------|------|------|-----------------------|----------------------|
|                                                       | 2012   | 2013 | 2014 | 2015 |                       |                      |
| <b>Number of pupils in Year 9 cohort</b>              | 152    | 164  | 122  | 147  |                       |                      |
| <b>Achieving the core subject indicator (CSI) (%)</b> | 81.6   | 78.7 | 86.1 | 91.8 | 88.6                  | 83.9                 |
| Benchmark quartile                                    | 1      | 2    | 1    | 1    |                       |                      |
| <b>English</b>                                        |        |      |      |      |                       |                      |
| Number of pupils in cohort                            | 152    | 164  | 122  | 147  |                       |                      |
| Achieving level 5+ (%)                                | 81.6   | 87.2 | 89.3 | 91.2 | 91.5                  | 87.9                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 2    | 2    | 2    |                       |                      |
| Achieving level 6+ (%)                                | 34.2   | 50.6 | 50.0 | 45.6 | 55.8                  | 52.6                 |
| Benchmark Quartile                                    | 4      | 1    | 2    | 3    |                       |                      |
| <b>Welsh first language</b>                           |        |      |      |      |                       |                      |
| Number of pupils in cohort                            | 151    | 160  | 122  | 143  |                       |                      |
| Achieving level 5+ (%)                                | 84.8   | 85.6 | 88.5 | 94.4 | 92.3                  | 90.9                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 3    | 3    | 2    |                       |                      |
| Achieving level 6+ (%)                                | 39.7   | 41.9 | 46.7 | 60.1 | 59.4                  | 56.1                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 3    | 3    | 2    |                       |                      |
| <b>Mathematics</b>                                    |        |      |      |      |                       |                      |
| Number of pupils in cohort                            | 152    | 164  | 122  | 147  |                       |                      |
| Achieving level 5+ (%)                                | 83.6   | 84.1 | 91.8 | 95.2 | 91.7                  | 88.7                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 3    | 1    | 1    |                       |                      |
| Achieving level 6+ (%)                                | 53.3   | 48.8 | 60.7 | 66.7 | 58.0                  | 59.5                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 3    | 2    | 1    |                       |                      |
| <b>Science</b>                                        |        |      |      |      |                       |                      |
| Number of pupils in cohort                            | 152    | 164  | 122  | 147  |                       |                      |
| Achieving level 5+ (%)                                | 87.5   | 87.2 | 91.8 | 97.3 | 95.8                  | 91.8                 |
| Benchmark Quartile                                    | 3      | 3    | 3    | 1    |                       |                      |
| Achieving level 6+ (%)                                | 48.7   | 42.1 | 47.5 | 67.3 | 58.6                  | 58.5                 |
| Benchmark Quartile                                    | 2      | 3    | 4    | 1    |                       |                      |

The core subject indicator (CSI) represents the percentage of pupils achieving level 5 or above in English or Welsh (first language), mathematics and science in combination.

. Denotes the data item is not applicable.

\* This item may disclose information on individuals, or it is not sufficiently robust for publication, not applicable or is otherwise unavailable.

The benchmark quartile compares the performance of one school against others who have similar levels of pupils with free school meals (FSM). FSM is used as a proxy of social deprivation in schools. This allows a comparison of the performance of a school against others who are in the same FSM category, and who might therefore have a similar intake of pupils from deprived backgrounds.

A school in benchmark quartile 1 is in the highest performing 25% of schools with similar levels of free school meals to this school. Therefore, the school's attainment levels are higher than many other schools with similar levels of pupils from deprived backgrounds. A school in benchmark quartile 4 is in the lowest performing 25% of schools with similar levels of free school meals to this school. Therefore, the school's attainment levels are lower than many other schools with similar levels of pupils from deprived backgrounds.

The benchmarks for Welsh are calculated using all schools that have pupils taking Welsh first language qualifications, and are based on the number of entries and do not include Welsh second language qualifications.

6614039 - Ysgol Syr Hugh Owen

|                                                              |                  |
|--------------------------------------------------------------|------------------|
| Number of pupils on roll                                     | 862              |
| Pupils eligible for free school meals (FSM) - 3 year average | 15.7             |
| FSM band                                                     | 3 (15%<FSM<=20%) |

Key stage 4

|                                                                                                                      | School |       |       |       | Family average (2015) | Wales average (2015) |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|-------|-------|-------|-----------------------|----------------------|
|                                                                                                                      | 2012   | 2013  | 2014  | 2015  |                       |                      |
| <b>Number of pupils aged 15</b>                                                                                      | 124    | 146   | 148   | 163   |                       |                      |
| <b>Percentage of 15-year-old pupils who:</b>                                                                         |        |       |       |       |                       |                      |
| <b>Achieved the level 2 threshold including a GCSE grade A*-C in English or Welsh first language and mathematics</b> | 25.8   | 49.3  | 48.6  | 65.0  | 61.9                  | 57.9                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 3     | 4     | 1     |                       |                      |
| <b>Achieved the level 2 threshold</b>                                                                                | 58.9   | 76.0  | 91.2  | 96.3  | 91.8                  | 84.1                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 3     | 2     | 1     |                       |                      |
| <b>Achieved the level 1 threshold</b>                                                                                | 87.1   | 98.6  | 100.0 | 100.0 | 99.1                  | 94.4                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 2     | 1     | 1     |                       |                      |
| <b>Achieved the core subject indicator (CSI)</b>                                                                     | 25.8   | 48.6  | 48.6  | 64.4  | 59.8                  | 54.8                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 2     | 4     | 1     |                       |                      |
| <b>Average capped wider points score per pupil</b>                                                                   | 303.0  | 343.3 | 361.8 | 374.6 | 362.6                 | 343.5                |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 3     | 2     | 1     |                       |                      |
| <b>Average capped wider points score plus per pupil</b>                                                              | 298.3  | 336.7 | 352.2 | 365.8 | 356.8                 | 338.7                |
| Benchmark quartile                                                                                                   | .      | .     | .     | .     |                       |                      |
| <b>Achieved five or more GCSE grades A*-A</b>                                                                        | 13.7   | 15.1  | 12.2  | 17.2  | 15.1                  | 16.6                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | .      | .     | .     | .     |                       |                      |
| <b>Achieved A*-C in English</b>                                                                                      | 51.6   | 51.4  | 56.8  | 64.4  | 68.3                  | 68.6                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 4     | 4     | 4     |                       |                      |
| <b>Achieved A*-C in mathematics</b>                                                                                  | 26.6   | 50.7  | 52.7  | 67.5  | 66.2                  | 64.4                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 4     | 4     | 2     |                       |                      |
| <b>Achieved A*-C in science</b>                                                                                      | 64.5   | 82.9  | 91.9  | 95.1  | 95.2                  | 84.0                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 4      | 2     | 2     | 2     |                       |                      |
| <b>Number of pupils aged 15 who entered Welsh First Language:</b>                                                    | 108    | 133   | 138   | 150   |                       |                      |
| <b>Of those who entered Welsh First Language:</b>                                                                    |        |       |       |       |                       |                      |
| <b>Achieved A*-C in Welsh</b>                                                                                        | 63.9   | 59.4  | 67.4  | 83.3  | 73.6                  | 75.2                 |
| Benchmark quartile                                                                                                   | 3      | 4     | 3     | 1     |                       |                      |

Includes all qualifications approved for pre-16 use in Wales.

Includes results for 15-year-old pupils, in maintained schools and independent schools, achieved during the academic year and any examinations taken at earlier age. Ages at the start of the academic year.

The core subject indicator (CSI) represents the percentage of pupils achieving level 2 or above in English or Welsh (first language), mathematics and science in combination.

The average capped wider points score is calculated using the best 8 results from all qualifications approved for pre-16 use in Wales for each pupil.

For pupils entering Welsh First Language, the best grade of Welsh language and literature is taken. The denominator for this indicator is the number of 15 year olds who entered Welsh First Language, rather than the total number of 15 year olds.

. Denotes the data item is not applicable.

\* This item may disclose information on individuals, or it is not sufficiently robust for publication, not applicable or is otherwise unavailable.

The benchmark quartile compares the performance of one school against others who have similar levels of pupils with free school meals (FSM). FSM is used as a proxy of social deprivation in schools. This allows a comparison of the performance of a school against others who are in the same FSM category, and who might therefore have a similar intake of pupils from deprived backgrounds.

A school in benchmark quartile 1 is in the highest performing 25% of schools with similar levels of free school meals to this school. Therefore, the school's attainment levels are higher than many other schools with similar levels of pupils from deprived backgrounds. A school in benchmark quartile 4 is in the lowest performing 25% of schools with similar levels of free school meals to this school. Therefore, the school's attainment levels are lower than many other schools with similar levels of pupils from deprived backgrounds.

The benchmarks for Welsh are calculated using all schools that have pupils taking Welsh first language qualifications, and are based on the number of entries and do not include Welsh second language qualifications.



6614039 - Ysgol Syr Hugh Owen

Number of pupils on roll 862  
Pupils eligible for free school meals (FSM) - 3 year average 15.7  
FSM band 3 (15%<FSM<=20%)

**Key stage 4 - performance of pupils eligible for free school meals**

|                                                                                                               | School |       |       |       | Family Average (2015) | Wales Average (2015) |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|-------|-------|-------|-----------------------|----------------------|
|                                                                                                               | 2012   | 2013  | 2014  | 2015  |                       |                      |
| Number of pupils aged 15 eligible for free school meals                                                       | 27     | 29    | 26    | 24    |                       |                      |
| Percentage of 15-year-old pupils eligible for free school meals who:                                          |        |       |       |       |                       |                      |
| Achieved the level 2 threshold including a GCSE grade A*-C in English or Welsh first language and mathematics | 0.0    | 27.6  | 3.8   | 41.7  | 41.8                  | 31.6                 |
| Achieved the level 2 threshold                                                                                | 25.9   | 51.7  | 69.2  | 83.3  | 79.4                  | 69.4                 |
| Achieved the level 1 threshold                                                                                | 74.1   | 96.6  | 100.0 | 100.0 | 97.6                  | 89.4                 |
| Achieved the core subject indicator (CSI)                                                                     | 0.0    | 24.1  | 3.8   | 41.7  | 40.0                  | 29.3                 |
| Average capped wider points score per pupil                                                                   | 227.5  | 298.4 | 318.7 | 352.2 | 336.0                 | 303.7                |
| Average capped wider points score plus per pupil                                                              | 222.3  | 288.2 | 300.2 | 341.5 | 328.9                 | 296.4                |
| Achieved five or more GCSE grades A*-A                                                                        | 0.0    | 3.4   | 0.0   | 0.0   | 4.1                   | 4.3                  |
| Achieved A*-C in English                                                                                      | 11.1   | 20.7  | 7.7   | 45.8  | 50.0                  | 45.1                 |
| Achieved A*-C in mathematics                                                                                  | 3.7    | 31.0  | 3.8   | 41.7  | 47.1                  | 39.2                 |
| Achieved A*-C in science                                                                                      | 25.9   | 62.1  | 73.1  | 79.2  | 90.6                  | 74.4                 |
| Number of pupils aged 15 who entered Welsh First Language:                                                    | 20     | 21    | 20    | 17    |                       |                      |
| Of those who entered Welsh First Language:                                                                    |        |       |       |       |                       |                      |
